




Delwedd: Northsea Neighbours (Das Letzte Kleinod & Shetland Arts)



Canllawiau Cronfa Pont Ddiwylliannol



Cynnwys

Cliciwch ar y dolenni isod i ymweld â'r adrannau gwahanol:

- | | |
|---|------------------|
| 1: Gwybodaeth ynglŷn â'r gronfa | Tudalen 3 |
| 2: Nodau'r rhaglen | Tudalen 4 |
| 3: Faint sydd ar gael? | Tudalen 4 |
| 4: Pwy all ymgeisio? (cymhwysedd) | Tudalen 5 |
| 5: Pwy sydd ddim yn cael ymgeisio? | Tudalen 6 |
| 6: Sut i ymgeisio | Tudalen 6 |
| 7: Help ar gyfer ymgeisio (derbyn cymorth) | Tudalen 6 |
| 8: Faint o amser fydd hi'n gymryd i gael penderfyniad? | Tudalen 6-7 |
| 9: Ar gyfer beth y gellir defnyddio'r cronfeydd | Tudalennau 7-8 |
| 10: Yr hyn na allwch chi ymgeisio amdano | Tudalennau 8-9 |
| 11: Sut mae eich cais yn cael ei asesu (meini prawf) | Tudalennau 9-11 |
| 12: Cwestiynau a manylder y cais, gan gynnwys canllawiau'r gyllideb | Tudalennau 11-16 |
| 13: Beth i'w wneud os oes gen i gwestiwn? | Tudalen 16 |



1. Gwybodaeth ynglŷn â'r gronfa

Rhaglen yw'r Bont Ddiwylliannol sy'n anelu at ddatblygu perthnasoedd newydd i gynorthwyo cyfnewid rhyngddiwylliannol a sgwrs ym maes y celfyddydau a diwylliant cyfranogol rhwng yr Almaen a'r DU.

Mae'r rhaglen yn targedu sefydliadau sy'n ymgorffori democratiaeth ddiwylliannol drwy:

- roi cymunedau wrth galon eu gwaith
- cefnogi pobl ar draws eu cymunedau i ddatblygu eu creadigrwydd a darganfod eu lleisiau unigol
- grymuso eu cymunedau i gydweithio er mwyn llunio lle lleol, hunaniaeth a rennir ynghyd ag asiantaeth ar y cyd
- archwilio ffyrdd newydd o gysylltu'r celfyddydau â chymdeithas, yn arbennig felly drwy feithrin cyd-greu rhwng cymunedau, artistiaid a phartneriaid eraill

Mae gan y rhaglen Pont Ddiwylliannol fuddsoddiad gan saith partner: Fonds Soziokultur, Goethe-Institut Llundain, Arts Council England, Arts Council Northern Ireland, British Council, Creative Scotland a Chyngor Celfyddydau Cymru/Celfyddydau Rhyngwladol Cymru.

Bydd penderfyniadau yn cael eu gwneud yn erbyn meini prawf y gronfa a byddan nhw'n anelu at gynnwys amrywiaeth a daearyddiaeth ddiwylliannol yr Almaen a'r DU.

2. Nodau'r Rhaglen

- Cefnogi cyfnewid rhyngwladol a chyfleoedd datblygu ar gyfer sefydliadau diwylliannol sydd wedi'u lleoli yn y DU a'r Almaen
- Galluogi newid cymdeithasol drwy ddatblygu dulliau cyfranogol ar draws amrediad o ffurfiau celfyddyd ac mewn ymateb i un neu fwy o themâu'r rhaglen:
 - Ailfywiocau lleoedd/cymunedau ôl-ddiwydiannol
 - Lleoedd gyda llai o gyfleoedd i ymgysylltu
 - Lleoedd a chymunedau sydd wedi cael eu trawsnewid gan actiffaeth llawr gwlad
 - Ailddiffinio'r defnydd o le cyhoeddus
- Archwilio modelau newydd o ymarfer arloesol, yn arbennig profi ffyrdd creadigol o weithio gyda chymunedau sy'n cynnig atebion newydd a chadarnhaol ar gyfer ymgysylltiad cymdeithasol.

3. Faint sydd ar gael?

Cyfanswm y gyllideb sydd ar gael ar gyfer y rhaglen yw £180,000 (oddeutu €209,000). Mae gan y rhaglen ddwy haen gyllid ac rydym yn rhagweld y bydd y gyllideb gyfan yn cael ei rhannu rhwng y ddwy Haen.

Ym mhob Haen, byddwn yn anelu at gwmpasu amrywiaeth ddaearyddol a diwylliannol yr Almaen a phedair gwlad y DU.

Haen 1: Partneriaethau newydd

Gall ymgeiswyr ofyn am gyfanswm o rhwng £5,000 a £10,000 ar gyfer pob partneriaeth.

Nid oes unrhyw ofyniad am gyllid cyfatebol.

Haen 2: Partneriaethau sefydledig

Gall ymgeiswyr ofyn am hyd at gyfanswm o £30,000 ar gyfer pob partneriaeth.

Nid oes unrhyw ofyniad ffurfiol am gyllid cyfatebol. Fodd bynnag, rydym yn annog uchelgais i ddatblygu partneriaethau ehangach a chael hyd i incwm arall, arian parod neu mewn nwyddau, er mwyn cwrdd â nodau'r bartneriaeth.

Gweler [adran 9](#) 'Ar gyfer beth y gellir defnyddio'r cronfeydd' er mwyn cael rhagor o fanylion am Haenau.

4. Pwy all ymgeisio? (cymhwysedd)

Mae'r rhaglen hon ar agor i bob sefydliad diwylliannol* sydd ag arbenigedd profedig mewn ymarfer ymgysylltu/cyfranogi yn gymdeithasol – gweler [adran 1](#) 'Gwybodaeth ynglŷn â'r gronfa ac [adran 2](#) 'Nodau'r rhaglen'.

Rydym yn croesawu derbyn ceisiadau gan sefydliadau sy'n cefnogi ymarferwyr creadigol unigol fel rhan o'r gweithgaredd arfaethedig.

Gwahoddir ceisiadau gan bartneriaethau newydd (Haen 1) neu bartneriaethau sefydledig (Haen 2) – gweler [adran 9](#) 'Ar gyfer beth y gellir defnyddio'r cronfeydd'.

Bydd cymorth yn cael ei gynnig, cyn y cam ymgeisio, er mwyn creu cysylltiadau rhwng sefydliadau'r DU a'r Almaen sy'n dymuno ymgeisio ar gyfer Haen 1.

Mae'n rhaid i bartneriaethau gynnwys o leiaf un partner Almaenig ac un partner o'r DU, gan unrhyw un o'r pedair gwlad: Lloegr, Gogledd Iwerddon, Yr Alban a Chymru.

Bydd gofyn i'r holl bartneriaethau enwebu arweinydd. Gall y partner sy'n arwain fod o'r Almaen neu o un o'r pedair gwlad yn y DU a bydd yn gweithredu fel y prif gyswllt, ar ran y bartneriaeth, gyda chyfrifoldeb am adrodd yn ôl i'r cyllidwyr.

Bydd sawl cais gan wahanol bartneriaid ar gyfer yr un gweithgaredd yn anghymwys.

Dylai partneriaid gydweithio i gwblhau'r cwestiynau cais sy'n ymwneud â'r Bartneriaeth a'r Gweithgaredd – Rheolaeth, Llinell Amser a Chanlyniadau. Dylid cyflwyno cyllidebau'r partneriaid ar wahân, un ai GBP neu Ewro fel y bo'n briodol.

[*Wrth 'sefydliad', rydym yn golygu grŵp o bobl sy'n gweithio tuag at nod cyffredin, gyda dogfen lywodraethu sy'n cynnwys y math o brosiect yr ymgeisir amdano, fel elusen, cwmni cyfyngedig neu grŵp anghorfforedig.

Mae angen i bob sefydliad gael cyfrif banc yn enw'r sefydliad, gyda dau lofnodwr (pobl sy'n cael arwyddo sieciau).]

5. Pwy sydd ddim yn cael ymgeisio?

- Artistiaid unigol – mae'r rhaglen hon yn canolbwyntio ar hyn o bryd ar ddatblygu partneriaeth ddwyochrog ar gyfer sefydliadau yn unig
- Sefydliadau sydd wedi'u lleoli (sy'n byw neu sydd wedi'u cofrestru) y tu allan i'r DU a'r Almaen
- Sefydliadau na allan nhw ddangos bod ganddyn nhw hanes blaenorol o ymarfer sy'n ymgysylltu yn gymdeithasol.

6. Sut i ymgeisio?

Bydd dolen i'r ffurflen gais yn fyw ar wefan Pont Ddiwylliannol: cultural-bridge.info ar ddydd Mercher, 14eg Medi 2022.

Y dyddiad cau ar gyfer y cais yw 12pm (y DU)/1pm (yr Almaen) ar ddydd Mercher, 26ain Hydref 2022.

7. Help ar gyfer ymgeisio (cymorth hygyrchedd)

Rydym yn dymuno gwneud y broses o ymgeisio ar gyfer rhaglen y Bont Ddiwylliannol yn hygyrch i bob sefydliad a hoffai ymgeisio. Os ydych chi angen cefnogaeth bersonol i gael mynediad i gwblhau cais, mae nifer o ffyrdd y gallwn ni helpu.

Mae'r canllawiau ar gael mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys PDF wedi'i fformatio, Testun Plaen. Os ydych chi angen fformat arall, cofiwch gysylltu â ni os gwelwch yn dda.

Mae arweinydd ein rhaglen wrth law i gynorthwyo'r holl ymgeiswyr a all fod â chwestiynau ynglŷn â'r canllawiau neu ynglŷn ag ymgeisio.

Yn ogystal, gallwn ni dalu am gostau mynediad sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd yr ydych chi'n ymgeisio amdano – gweler [adran 12](#) 'Cwestiynau a manylder y cais'.

8. Faint o amser fydd hi'n gymryd i gael penderfyniad?

Byddwch yn derbyn penderfyniad erbyn 14eg Rhagfyr 2022.

Ni all eich gweithgaredd ddechrau cyn mis Chwefror 2023 a dylid ei gwblhau erbyn mis Chwefror 2024, os na chytunir yn wahanol.

9. Ar gyfer beth y gellir defnyddio'r cronfeydd

Gall ceisiadau fod ar gyfer gweithgaredd mewn person, digidol, neu hybrid sy'n canolbwyntio ar ymarfer sy'n ymgysylltu yn gymdeithasol/gyfranogol ac mewn ymateb i nodau/themâu'r rhaglen – gweler [adran 2](#) 'Nodau'r Rhaglen'

Mae'n rhaid i'r gweithgaredd fod yn unol ag unrhyw gyfyngiadau COVID sy'n parhau gan y Llywodraeth yn unrhyw un o wledydd y DU ac yn rhanbarthau'r Almaen lle bydd y gweithgaredd yn digwydd.

Rydym yn croesawu ceisiadau ar gyfer gweithgareddau partneriaeth sy'n lleihau effeithiau amgylcheddol negyddol ac yn hyrwyddo rhai cadarnhaol.

Mae gan y rhaglen hon ddwy haen gyllid:

Mae **Haen 1** ar gyfer cefnogi'r datblygiad o bartneriaethau newydd rhwng sefydliadau diwylliannol yn y DU a'r Almaen, ac mae'n rhaid i'r ddau sefydliad feddu ar brofiad dangosadwy o ymarfer sy'n ymgysylltu yn gymdeithasol.

Gellir defnyddio cyllid Haen 1 ar gyfer un neu ar gyfer y cyfan o'r canlynol:

- Datblygu partneriaeth
- Cyfnewid
- Preswyliaid
- Cyd-greu
- Rhwydweithio

Er enghraifft:

- Datblygu ymarfer artistig drwy gydweithrediad rhyngwladol
- Cyfnewid pobl greadigol allweddol i ddatblygu cysyniadau neu berthnasod newydd sy'n archwilio ffyrdd arloesol o gysylltu'r celfyddydau a'r gymdeithas
- Arbrofi gyda dulliau a fformatau newydd o ymgysylltu diwylliannol mewn cyfres o weithgareddau peilot llai wedi'u cyd-greu gyda chymunedau

Nid ydym yn disgwyl unrhyw gynnyrch perfformiadol/artistig o weithgaredd Haen 1. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl i chi rannu mewnwelediadau a darganfyddiadau yn seiliedig ar yr ymarfer gyda rhwydwaith y Bont Ddiwylliannol, ac yn fwy cyhoeddus drwy gyfraniadau at ein rhaglen gyfathrebiadau a deunyddiau eraill.

Mae Haen 2 ar gyfer cefnogi partneriaethau sefydledig rhwng sefydliadau diwylliannol yn y DU a'r Almaen, ac mae'n rhaid i'r ddau sefydliad feddu ar brofiad dangosadwy o ymarfer sy'n ymgysylltu yn gymdeithasol.

Gellir defnyddio cyllid Haen 2 ar gyfer:

Er enghraifft:

- Datblygu ymarfer artistig, gan gynnwys cysyniadau/dulliau/fformatau newydd o ymgysylltu diwylliannol ar raddfa fwy, y tu hwnt i'r cam ymchwil cychwynnol
- Cyd-greu a chyflawni gwaith cyfranogol newydd ar raddfa fwy, y tu hwnt i'r cam ymchwil cychwynnol
- Cyllid cyfatebol: pan nad yw terfyniadau'r gronfa yn eich galluogi chi i gwrdd ag uchelgeisiau'r bartneriaeth, gellir defnyddio'r cyllid hwn fel arian cyfatebol, er mwyn helpu cael hyd i fuddsoddiad pellach.

Dylai holl geisiadau Haen 2 gynnwys rhywfaint o ymarfer ymgysylltu/cyfranogol uniongyrchol gyda chymunedau. Yn ogystal, rydym yn disgwyl i chi rannu mewnwelediadau a darganfyddiadau sy'n seiliedig ar ymarfer gyda rhwydwaith y Bont Ddiwylliannol, ac yn fwy cyhoeddus drwy gyfraniadau i'n rhaglen gyfathrebiadau ynghyd â'n deunyddiau eraill.

Bydd angen i ymgeiswyr wneud eu hymchwil eu hunain a bod yn ymrwymedig i'r gweithgaredd arfaethedig gan unrhyw bartner/bartneriaid eraill a enwir.

10. Yr hyn na allwch chi ymgeisio amdano

- Gweithgaredd nad yw'n gysylltiedig â'r celfyddydau nac yn canolbwyntio ar ddatblygu ymarfer sy'n ymgysylltu yn gymdeithasol mewn partneriaeth
- Gweithgareddau a gynhelir, neu'n sy'n dechrau, cyn mis Chwefror 2023
- Costau/gweithgaredd sydd eisoes yn cael eu talu gan gyllid arall
- Costau rhedeg cyffredinol a gorbenion a delir amdanyn nhw gan incwm arall, gan gynnwys eich cronfeydd eich hunain

- Gweithgareddau sy'n gwneud elw – os yw eich cyllideb yn cynnwys incwm dros ben nad yw'n cael ei wario o fewn y prosiect, yna ni fydd eich prosiect chi yn gymwys
- Gorbenion parhaus sy'n gysylltiedig â chyfarpar neu adeiladau, fel yswiriant a chostau cynnal a chadw
- Y costau sy'n gysylltiedig â chwarantin COVID, un ai yn y DU neu yn yr Almaen. Byddwn yn caniatáu costau rhesymol ar gyfer profion COVID sy'n gysylltiedig â theithio rhyngwladol.

Rydym yn cadw'r hawl i roi cynnig is pan mae costau yn ymddangos yn anghymwys neu'n afresymol.

11. Sut mae eich cais yn cael ei asesu (Meini prawf)

Yn gyntaf, bydd eich cais yn cael ei wirio am gymhwysedd. A wnewch chi wirio os gwelwch yn dda a ydych chi, eich gweithgareddau a'ch partneriaid yn gymwys ar gyfer y gronfa hon – gweler [adran 4](#) 'Pwy all ymgeisio?'

Unwaith bod y cymhwysedd wedi'i wirio, bydd y cais yn cael ei sgorio gan banel o reithwyr o hyd at saith o arbenigwyr annibynnol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Almaen a'r DU a enwebwyd gan bob un o bartneriaid cyllid y Bont Ddiwylliannol.

Bydd y panel rheithgor yn asesu'r cais yn unol â'r pedwar maen prawf canlynol:

Y bartneriaeth:

- Haen 1 yn unig: A oes rhesymeg ar gyfer dethol y partneriaid (eu sgiliau, eu hymarfer a'u profiad) ac a fydd cyfansoddiad y bartneriaeth yn helpu i gyflawni beth mae'r gweithgaredd yn ceisio'i wneud?
- Haen 2 yn unig: A yw'r partneriaid yn dangos hanes blaenorol o gydweithio ac a fydd cyfansoddiad y bartneriaeth yn helpu i gyflawni beth mae'r gweithgaredd yn ceisio'i wneud?
- A yw'r bartneriaeth yn gydfuddiannol – a fydd yr holl bartneriaid yn gweld budd yn y gweithgaredd?

Dull y gweithgaredd:

- Haen 1 yn unig: A yw'r cais yn dangos arloesedd – posibilrwydd ar gyfer archwilio neu ddatblygu dull newydd neu wahanol?

- Haen 2 yn unig: A yw'r cynnig yn dangos arloesedd ac uchelgais, e.e. drwy ddatblygu cysyniadau/dulliau/fformatau newydd o ymgysylltu diwyllian-nol ar raddfa fwy, y tu hwnt i'r cam ymchwil cychwynnol, gan gynnwys ystyried partneriaethau ac incwm ehangach, yn awr neu yn y dyfodol?
- A yw'r cynnig yn ymateb i anghenion neu heriau penodol presennol y partneriaid yn unol ag un neu fwy o themâu'r Bont Ddiwylliannol?

Yr effaith bosibl:

- A yw'r cynnig yn amlinellu buddion/effaith posibl y gweithgaredd ar gyfer artistiaid a'r gymuned? Gall hyn gynnwys datblygu ymarfer artistig a dulliau ymgysylltu, gan wireddu dulliau arloesol er mwyn helpu i gyrraedd cymunedau newydd, cyfleoedd cydweithreol ehangach ar gyfer y dyfodol ayyb.
- A ydi'r cynlluniau i fonitro, cipio a rhannu'r dysgu yn briodol?

Strwythur a rheolaeth y gweithgaredd:

- A yw'r swm a ofynnwyd amdano, a'r dadansoddiad costau yn ymddangos yn rhesymol ar gyfer y gweithgaredd sy'n digwydd?
- A yw'r amser ar gyfer y gweithgaredd yn ymddangos yn ymarferol?
- A yw'r gweithgaredd yn ystyried y sefyllfa bresennol gyda'r pandemig? (Gweler ein nodiadau ar gostau anghymwys a bod gweithgareddau digidol a hybrid hefyd yn bosibl)
- A yw hi'n eglur beth sy'n digwydd, pa bryd a gyda phwy?
- A yw'r gweithgareddau a ddisgrifiwyd yn ymddangos yn debygol o gael yr effaith neu'r canlyniadau a ddymunir?

Bydd ceisiadau yn cael eu sgorio yn erbyn y pedwar maen prawf, a bydd sgorau'r aseswyr yn cael eu cyfansymio yn annibynnol cyn penderfyniad y panel. Bydd yr holl geisiadau a'r sgorau wedyn yn cael eu trafod yn ystod y panel penderfynu gan y rheithgor. Wrth wneud y penderfyniadau ar gyfer y dyfarniadau terfynol, bydd panelwyr hefyd yn cydbwyso'r gwobrau drwy ystyried:

- Amrywiaeth ddiwylliannol
- Amrywiaeth ddaearyddol, gan gynnwys cydbwyso partneriaethau gweithgaredd ar draws yr Almaen a phob un o bedair gwlad y DU – Lloegr, Gogledd Iwerddon, Yr Alban a Chymru

Pe digwydd ein bod yn derbyn nifer uwch o geisiadau nag a ragwelwyd, rydym yn cadw'r hawl i gyflwyno cam pellach i hidlo ceisiadau, ac yn y sefyllfa hon, y ceisiadau a sgoriodd uchaf yn unig a fydd yn cael eu cynnwys yn nhrafodaethau'r rheithgor.

Os ydych chi'n aflwyddiannus, bydd adborth byr yn cael ei roi ynglŷn â pha feini prawf a allai fod wedi cryfhau'r cais.

Os ydych chi'n llwyddiannus, byddwn yn cysylltu â chi i drefnu i chi lofnodi cytundeb grant a chael eich manylion banc.

Yn ogystal, byddwn yn gofyn i chi rannu'r dysgu yn ystod cyfnod y gweithgaredd ac ateb rhywfaint o gwestiynau arfarnol ar ddiwedd dyddiad cau'r gweithgaredd a gyllidir.

12. Cwestiynau a manylder y cais

Eich partneriaeth

- H1 yn unig: Pam ydych chi a'ch partner wedi penderfynu cydweithio? (250 gair)
- H2 yn unig: Pam ydych chi a'ch partner wedi penderfynu cydweithio eto, rhowch fanylion i ddangos eich hanes blaenorol o weithio mewn partneriaeth os gwelwch yn dda? (250 gair)
- Dywedwch wrthym pam mae'r gweithgaredd hwn yn bwysig i bob un o'r partneriaid sydd ynghlwm â'r mater a sut gallwch chi weld y berthynas yn datblygu yn y dyfodol? (300 gair)

Eich gweithgaredd

- Dywedwch wrthym beth ydych chi'n cynllunio i'w wneud, gan gynnwys gyda phwy, lle a pha bryd. A yw'r gweithgaredd yn debygol o fod mewn person, digidol neu hybrid? (300 gair)
- Ym mha ffordd mae'r gweithgaredd hwn yn ceisio gwneud rhywbeth newydd ac ymateb i'r anghenion neu'r heriau presennol yn unol ag un neu fwy o themâu'r Bont Ddiwylliannol? (250 gair)

Canlyniadau'r Gweithgaredd

- H1 yn unig: Pa fuddion neu effaith arbennig ydych chi'n eu rhagweld o ganlyniad i'r cyfnod YaD, mewn perthynas â'r bartneriaeth artistig ac ymglymiad y gymuned fel ei gilydd, un ai yn awr neu yn y dyfodol? (300 gair)
- H2 yn unig: Pa fuddion neu effaith arbennig ydych chi'n eu rhagweld o ganlyniad i'r gweithgaredd, mewn perthynas â'r bartneriaeth artistig a'r cymunedau sydd ynghlwm fel ei gilydd? (300 gair)
- Dywedwch wrthym sut ydych chi'n cynllunio i fonitro a gwerthuso cynnydd eich gweithgaredd, gan gynnwys cipio a rhannu canlyniadau dysgu? (250 gair)

Rheoli eich gweithgaredd

- Dywedwch wrthym os gwelwch yn dda sut byddwch chi'n rheoli eich gweithgaredd o fewn y bartneriaeth, er enghraifft, sut bydd y gwaith yn debygol o gael ei ddosbarthu rhwng partneriaid y DU a'r Almaen? (200 gair)

Yr Amser ar gyfer y Gweithgaredd

- Nodwch os gwelwch yn dda prif gamau'r gweithgaredd o'r dyddiad cychwyn ymlaen, gan gynnwys lle bydd yn digwydd a phwy fydd yn arwain pob gweithgaredd neu dasg.

Byddwn yn gofyn i chi gwblhau tabl er mwyn rhestru'r prif gamau a thasgau cyfnod y gweithgaredd yr ydych chi'n ymgeisio amdano, o'ch dyddiad cychwyn ymlaen.

Gall prif gamau a thasgau gynnwys cynllunio, datblygu a chyfarfodydd ymchwil, teithio, mynychu neu gyflwyno digwyddiadau/gweithdai, grwpiau ffocws, cyfarfodydd gwerthuso ac yn y blaen.

Rydym eisiau gweld eich bod chi wedi meddwl ynglŷn â sut byddwch chi'n cynllunio eich amser, a'ch bod yn gallu rheoli eich gweithgaredd yn yr amser yr ydych chi wedi'i neilltuo ar ei gyfer.

Rydym yn deall na allwch chi wybod efallai yr union ddyddiadau ar adeg yr ymgeisio a bod dyddiadau yn gallu newid o ganlyniad.

Cyllideb y Gweithgaredd

- Dywedwch wrthym os gwelwch yn dda y cyfanswm yr ydych chi'n gofyn amdano gennym ni mewn £, gan gynnwys unrhyw gostau mynediad personol a all fod yn ychwanegol at gyllideb eich gweithgaredd (ac yn fwy na therfyn uchaf y cais am yr Haen)
- Faint o'r cais hwn sydd ar gyfer costau mynediad personol? Dywedwch wrthym os gwelwch yn dda ar gyfer beth fydd y rhain yn cael eu defnyddio? (150 gair)
- Dywedwch wrthym os gwelwch yn dda sut fyddwch chi'n rheoli'r cronfeydd yr ydych chi'n ymgeisio amdanyn nhw, gan gynnwys manylion ynglŷn â phwy fydd yn rheoli eich cyllideb? (150 gair)
- H2 yn unig: Os ydych chi'n chwilio am gyllid cyfatebol, rhowch fanylion ynglŷn â'ch cynlluniau os gwelwch yn dda i ddod o hyd i ffynhonnell arall o incwm, a dangoswch pa gam yr ydych chi yn y broses hon? (200 gair)

Cyflwyno eich cyllideb:

Haen 1:

Byddwn yn gofyn i chi gwblhau tabl ar gyfer bob partner, gan restru'r holl wariant ar gyfer y gweithgaredd, a nodi'r math, y disgrifiad a'r swm.

Cyfeiriwch os gwelwch yn dda at [adran 10](#) – 'Yr hyn na allwch chi ymgeisio amdano' a [12.1](#) 'Canllawiau'r Gyllideb'.

Haen 2:

Byddwn yn gofyn i chi gynhyrchu eich cyllideb ar daenlen Excel ar wahân, gyda dadansoddiad cyflawn o incwm y gweithgaredd (lle y bo'n berthnasol) a'r gwariant ar gyfer partner yr Almaen a phartner y DU ar y prosiect.

Byddwn yn gofyn i chi ddefnyddio tabiau ar wahân o fewn y daenlen i gyflwyno cyllidebau partner/partneriaid yr Almaen a'r DU ar wahân, mewn £ neu € fel y bo'n briodol.

Cyfeiriwch os gwelwch yn dda at [adran 10](#) – 'Yr hyn na allwch chi ymgeisio amdano' a 12.1 ar gyfer 'Canllawiau'r Gyllideb'. Yn ogystal, nodwch ganllawiau ychwanegol Haen 2 o dan [adran 12.2](#), sy'n berthnasol yn unig lle ceisir cael cyllid cyfatebol.

12.1 Canllawiau'r Gyllideb

Darparwch restr o'ch cyllideb sy'n rhestru'r holl wariant ar gyfer y gweithgaredd os gwelwch yn dda. Byddwn ni angen gallu gweld sut yr ydych chi wedi gweithio'r ffigyrau allan, ac felly dadansoddwch nhw yn eglur o dan bob pennawd cost, gan nodi'r math, y disgrifiad a'r swm:

- Cyflogau neu ffioedd ar gyfer artistiaid neu'r bobl greadigol sydd ynghlwm
- Costau artistig neu greadigol eraill, e.e. ymchwil, cipio digidol
- Hurio neu brynu e.e., lleoliad, deunyddiau neu gyfarpar
- Marchnata a datblygu cynulleidfaoedd
- Costau hygyrchedd, e.e. personol a/neu wneud gwaith yn hygyrch i bobl eraill
- Teithio a llety
- Gorbenion e.e. yswiriant, dogfennaeth deithio ayyb
- Arall e.e. treuliau annisgwyl

Nodwch os gwelwch yn dda 'Yr hyn na allwch chi ymgeisio amdano' yn [adran 10](#).

Gall costau mynediad personol fod yn ychwanegol at gyllideb eich gweithgaredd ac yn fwy na therfyn uchaf y cais ar gyfer yr Haen. Mae costau mynediad personol yn gostau sy'n ymwneud â'ch anghenion mynediad eich hun, ac/neu unrhyw anghenion mynediad yr ymarferwyr creadigol yr ydych chi'n gweithio'n uniongyrchol â nhw, er mwyn cyflawni eich gweithgaredd, a/neu reoli eich grant. Dylai costau mynediad sy'n ymwneud â galluogi cyfranogwyr i ymgysylltu â'ch gweithgaredd, e.e. dylai dehonglwr gael ei gynnwys o fewn cyllideb eich gweithgaredd.

Dylai eich cyllideb gynnwys **ffioedd ar gyfer artistiaid a gweithwyr proffesiynol** sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod y rhai hynny sy'n gweithio yn y byd creadigol a diwylliant yn cael eu talu yn briodol ac yn deg. Gofynnwn i chi sicrhau bod cyflogau ar gyfer artistiaid a gweithwyr proffesiynol sydd yn cymryd rhan yn eich gweithgaredd (gan gynnwys chi eich hun) yn unol â safonau perthnasol y diwydiant, neu'n well na'r safonau. Hefyd, mae angen ystyried profiad a sgiliau, y math o waith a hyd y gweithgaredd.

Gall ymgeiswyr yn y DU ymgeisio am **gostau gorbenion sy'n uniongyrchol** gysylltiedig â'r gweithgaredd yr ydych yn gofyn inni ei gefnogi – er enghraifft, taliadau i staff, biliau ffôn, costau postio ac yswiriant. Gallwch chi ymgeisio am gyfraniad at eich gorbenion parhaus os nad yw'r rhain yn cael eu talu gan ffynonellau eraill o gyllid.

Ar gyfer ymgeiswyr o'r Almaen, dim ond costau gweithgaredd uniongyrchol a ellir eu cefnogi ac mae'n rhaid darparu tystiolaeth ynglŷn â hyn yn yr adroddiad terfynol. Mae'n rhaid i'r holl gostau gael eu cadarnhau gyda derbynebaw.

Gall eich cyllideb gynnwys costau o dan y pennawd gwariant arall ar gyfer eich gweithgaredd nad yw'n cael ei gynnwys yn unman arall. Fodd bynnag, dylech chi barhau i ddangos dadansoddiad eglur o beth mae'r gwariant hwn yn ei gynnwys. Gall hyn gynnwys swm ar gyfer costau annisgwyl (cyllid wrth gefn).

Os ydych chi angen prynu unrhyw **ddeunyddiau neu gyfarpar (asedau)**, dylech chi gynnwys y costau hyn yn y gyllideb a dywedwch wrthym ni amdany'n nhw yn y maes disgrifiad. Dylech chi gael dyfynbrisiau cystadleuol gan fwy nag un busnes neu gyflenwr. Nid prif ddiben y rhaglen yw prynu asedau, ond rydym yn deall y gallwch chi fod angen prynu rhywfaint i allu ymgymryd â'r gweithgaredd. Fel rhan o'n gwiriadau cymhwysedd, byddwn yn penderfynu a yw prynu unrhyw asedau arfaethedig yn briodol.

Gellir cyfrifo costau teithio ar gyfer ymgeiswyr o'r Almaen gan ystyried y rheoliadau mewn cyfraith Ffederal ynglŷn â chostau teithio

'Bundesreisekostengesetz'.

Rydym yn deall y gall fod angen gwneud newidiadau i gyllidebau eich gweithgaredd yn ystod y cyfnod cyflwyno. Fodd bynnag, bydd angen cytuno ar unrhyw newidiadau sylweddol gydag arweinydd cyllid y DU neu'r Almaen.

12.2 Canllawiau Ychwanegol y Gyllideb ar gyfer Haen 2:

Nid oes unrhyw ofyniad ffurfiol ar gyfer cyllid cyfatebol. Fodd bynnag, rydym yn annog uchelgais i ddatblygu partneriaethau ehangach a chael hyd i incwm arall, arian parod neu nwyddau, er mwyn cwrdd â nodau'r bartneriaeth.

Os nad ydych chi'n bwriadu dod o hyd i gyllid cyfatebol, nwyddau neu arian parod, dylai eich cyllideb fod ar gyfer cyfanswm cost y gweithgaredd yr ydych chi'n ymgeisio'i gyflawni, hyd at derfyn yr haen, ac unrhyw gostau mynediad personol. **Yn yr achos hwn, cyfeiriwch at ganllawiau gwreiddiol y gyllideb os gwelwch yn dda.**

Os ydych chi'n dweud wrthym ni eich bod yn ceisio cael cyllid cyfatebol, byddwn yn edrych ar eich cais fel cyfraniad tuag at gost gyffredinol eich gweithgaredd partneriaeth a dylai eich cais a'ch cyllideb adlewyrchu'r uchelgais hon, gyda chyllid y Bont Ddiwylliannol yn cael ei gyflwyno fel cyfran o incwm cyffredinol y prosiect.

Dylid manylu ynglŷn ag unrhyw gyllid cyfatebol ychwanegol, arian parod neu nwyddau, yn eich cyllideb incwm gyda nodyn ynglŷn â pha gam yr ydych chi wrth ddod o hyd i gyllid ychwanegol, e.e. wrthi'n trafod, disgwyl cyllid neu fod y cyllid wedi'i gadarnhau.

Dywedwch wrthym ni am incwm eich prosiect drwy ddefnyddio'r penawdau incwm, e.e.:

- Incwm a enillwyd – unrhyw incwm y byddwch chi'n ei ennill o'r gweithgaredd hwn (er enghraifft, o werthiant tocynnau, ffioedd gweithdai neu drwy werthu gwaith neu gyhoeddiadau).
- Cyllid cyhoeddus arall – unrhyw gyllid yr ydych chi wedi'i dderbyn neu wedi ymgeisio amdano gan unrhyw sefydliad cyhoeddus arall. Nodwch enw a chyfeiriad pob sefydliad a'r swm.
- Incwm preifat – unrhyw incwm o ffynonellau preifat, er enghraifft, oddi wrthy ch chi neu'ch sefydliad, rhoddion neu grantiau gan ymddiriedolaethau a sefydliadau, neu gan gyllido torfol.
- Cefnogaeth gyda nwyddau – mae'n golygu unrhyw ddeunyddiau neu wasanaethau a byddech chi fel arall yn gorfod talu amdany'n nhw, ond eu bod yn cael eu darparu yn rhad ac am ddim neu'n rhatach.

Mae'n rhaid mantoli eich cyllideb. Felly, mae angen i'ch incwm fod yr un fath â'ch swm gwariant.

Byddwn yn ystyried cryfder eich cyllideb drwy ddefnyddio eich cyfrifiadau a'ch esboniadau.

13. Beth i'w wneud os oes gen i gwestiwn?

Noder mae rhaglen Pont Diwylliannol yn cael ei rheoli yn y DU gan Cyngor Celfyddydau Lloegr. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich cais, defnyddiwch y manylion cyswllt isod.

Cyswllt ar gyfer sefydliadau'r DU:

Lorna Palmer
Arweinydd Rhaglen Pont
Ddiwylliannol
lorna.palmer@artscouncil.org.uk
07515 191979

Cyswllt ar gyfer sefydliadau'r

Almaen:

Mechthild Eickhoff
Rheolwr Gweithredol
Fonds Soziokultur e.V.
eickhoff@fonds-soziokultur.de
02 28 - 97 144 7914



Supported using public funding by
**ARTS COUNCIL
ENGLAND**



Supported by
The National Lottery®
through Creative Scotland

